**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT CC 02-03 p4**

Dyddiad: 22 Ionawr 2003

Amser: 9.00 - 12.30pm

Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# *CYFLWYNIAD GAN GYNGOR AMGUEDDFEYDD YNG NGHYMRU*

## Cyflwyniad

Corff a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru (C.Amg.C.). Rydym yn aelod-sefydliad, sy’n cynrychioli Amgueddfeydd Awdurdodau Lleol, Annibynnol ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru.

Mae ein swyddfeydd gweithredu yn Wrecsam a Chaerdydd.

Ein prif amcanion strategol yw:

- gwella safonau mewn gofalu am gasgliadau amgueddfa,
- datblygu gwasanaethau i’r cyhoedd mewn amgueddfeydd,
- datblygu gweithlu’r amgueddfeydd,
- cynyddu’r wybodaeth am gasgliadau amgueddfa yng Nghymru a
- darparu arolwg strategol ar ddarpariaeth amgueddfeydd yng Nghymru, ar gyfer ein haelodau, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill.

Rydym yn gwneud hyn trwy gyfrwng adfocatiaeth, cynllunio a datblygu strategol, datblygu safonau, cymorth grant wedi’i dargedu, casglu gwybodaeth, darparu cefnogaeth hyfforddiant, ac mewn gwasanaethau ymgynghorol.

## Y Gorffennol a’r Dyfodol

Cafodd C.Amg.C. ei sefydlu ym 1967 ac roedd yn un o’r 12 Cyngor Amgueddfa Ardal yn y DU. Yn ystod y 35 mlynedd bu’n brif symbylydd ym maes datblygu amgueddfeydd yng Nghymru. Trwy gyfrwng ei gefnogaeth, ei gyngor a’i gymorth grant, mae’r safonau wedi gwella’n sylweddol, fe agorwyd nifer o amgueddfeydd newydd, a diogelu asedion treftadaeth sylweddol. Ac ar ben hynny am flynyddoedd lawer mae C.Amg.C. wedi darparu gwasanaethau uniongyrchol i’w aelodau, yn enwedig ym maes arddangos a chadwraeth, ond nid yw’n gwneud hynny mwyach.

Yn 2004, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi’r gorau i gyllido C.Amg.C., a chaiff y rhan fwyaf o swyddogaethau’r cyngor eu trosglwyddo i uned newydd, CyMAL (Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd Cymru). Bydd rhaid i’r uned newydd hon ddatblygu rhagor ar a chynnal nifer o fentrau sylweddol sy’n cael eu darparu gan C.Amg.C. ar hyn o bryd. Mae’r papur hwn yn amlygu rhywfaint ohonynt.

**Datblygu Safonau**

1. Mae C.Amg.C. yn gweithio gyda Resource: Cyngor yr Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd, er mwyn datblygu’r Cynllun Cofrestru Amgueddfeydd. Mae amgueddfeydd sydd wedi’u cofrestru o dan y cynllun hwn yn bodloni lleiafswm safonau o ran gofalu am gasgliadau, gwasanaeth cyhoeddus, a rheolaeth. C.Amg.C. oedd yr unig Gyngor Amgueddfa Ardal yn y DU i gwblhau cofrestriad Cam 1 i Gam 2 o fewn y raddfa amser a bennwyd gan Resource. Ar hyn o bryd mae 81 o Amgueddfeydd Lleol Cofrestredig yng Nghymru (39 awdurdod lleol, 43 annibynnol). Mae C.Amg.C. yn gweithio gydag amgueddfeydd eraill er mwyn eu galluogi i ennill statws cofrestredig. Mae 3 ardal rhagbrofi yn y DU yn rhagbrofi Cofrestriad Amgueddfa Cam 3, a C.Amg.C. yw un ohonynt.

2. Yn ddiweddar fe roddodd C.Amg.C. gychwyn ar Fenter Cynllunio Digwyddiad Difrifol (SIPI) er mwyn sicrhau safonau cywir o ran bod yn barod ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau a allai ddigwydd mewn aelod-amgueddfeydd.

3. Mae C.Amg.C. yn cefnogi ystod eang o faterion rheoli casgliadau megis dogfennaeth, storio a chadwraeth trwy gyfrwng cyngor a chymorth grant.

**Gwybodaeth**

1. Yn ddiweddar fe gyhoeddodd C.Amg.C. "Mapio Amgueddfeydd 2002". Am y tro cyntaf mae data meintiol ac ansoddol ar gasgliadau a gwasanaethau cyhoeddus yn Amgueddfeydd Cymru (gan gynnwys Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru) i hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol ac eraill. Bydd rhaid diweddaru’r gwaith hwn yn gyson. Ar ben hynny mae C.Amg.C. yn casglu nifer o ddangosyddion perfformiad yn flynyddol ar amgueddfeydd Cymru.

2. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae C.Amg.C. wedi casglu data manwl ynghylch prisiau mynediad i amgueddfeydd, effeithiau Clwy’r traed a’r Genau ar amgueddfeydd, ac ar gasgliadau amgueddfa, e.e. Casgliadau Chwaraeon.

**Partneriaethau**

Mae C.Amg.C. yn ymwneud yn fwyfwy â phartneriaethau, gyda’r nod o hybu achos amgueddfeydd lleol yng Nghymru.

1. Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing Treasures. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sianelu cyllid ychwanegol trwy C.Amg.C., i ddatblygu 3 chynllun peilot. Bydd hyn yn galluogi AOCC ac amgueddfeydd lleol i weithio’n agosach gyda’i gilydd. Bydd Oriel Ynys Môn, Amgueddfa Wrecsam ac Amgueddfa Brycheiniog yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer datblygu seilwaith. O ganlyniad fe geir benthyciadau sylweddol gan AOCC. Disgwylir yn ffyddiog y bydd y fenter

hon yn cael ei lledaenu i amgueddfeydd eraill ledled Cymru yn y dyfodol.

2. Mae C.Amg.C. yn arwain Arolwg o Archifdai Archeolegol gyda AOCC a RCAHMW i feintoli faint o ddeunydd o gloddiadau sy’n cael ei roi ar ddangos mewn amgueddfeydd neu archifdai .

3. Ymysg y partneriaethau eraill y mae C.Amg.C. yn cymryd rhan ynddynt mae’r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy (gyda AOCC ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru) a phrosiect Casglu’r Tlysau.

4. MEMORIA – *Cynorthwyo Cof-Sefydliadau i Wynebu’r Dyfodol* yw prosiect UE cyntaf C.Amg.C. Trwy weithio gyda phartneriaid yn yr Eidal, Sbaen, yr Iseldiroedd a Lloegr (a gydag amgueddfeydd lleol yn Sir Fynwy a Chasnewydd fel meinciau arbrofi), bydd y prosiect yn rhagbrofi meddalwedd newydd yn seiliedig ar amgueddfeydd er mwyn cyrchu casgliadau amgueddfa mewn ffyrdd arloesol.

5. Rydym yn gweithredu fel ymgynghorwyr arbenigol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ynghylch ceisiadau amgueddfeydd, a rhai eraill cysylltiedig.

**Cynllunio a Datblygu Strategol**

1. Bu arolygon o gasgliadau a gedwir mewn amgueddfeydd yng Nghymru, neu mewn grwpiau o amgueddfeydd penodol, yn rhan bwysig o waith C.Amg.C. Un ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar oedd arolwg o gasgliadau a gedwir ym mhrifysgolion Cymru, *Ciniawa Ymysg yr Esgyrn*, sy’n mynegi pryderon difrifol ynghylch nifer o gasgliadau arwyddocaol. Ac o ganlyniad mae C.Amg.C. yn rhoi cefnogaeth weddol fach ar hyn o bryd, ond bydd angen rhagor o gefnogaeth yn y dyfodol.

2. Yn ystod Clwy’r Traed a’r Genau fe gomisiynodd C.Amg.C. adroddiad ar Amgueddfeydd a chasgliadau Amaethyddiaeth a Bywyd Cefn Gwlad yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn amlygu’r anawsterau y mae’r amgueddfeydd hyn yn eu hwynebu, o ran mynd i’r afael â materion gwledig cyfoes. Unwaith eto mae C.Amg.C. yn rhoi cefnogaeth ond bydd angen rhagor yn y dyfodol er mwyn galluogi amgueddfeydd i adlewyrchu’r newidiadau mewn ffermio heddiw.

3. Fel rhan o’r cynllunio strategol rydym ni wedi cefnogi nifer o astudiaethau dichonolrwydd i awdurdodau lleol ac i ymddiriedolaethau annibynnol hefyd, er mwyn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Yn ddiweddar fe ymgymerwyd ag astudiaethau ar gyfer Cynghorau Castell-nedd Port Talbot, Caerffili, a Chaerdydd, ac yn Amgueddfa Werin Brynbuga.

4. Efallai mai prif lwyddiant C.Amg.C. oedd y gefnogaeth a roddwyd ganddo i ddatblygu amgueddfeydd trwy’r cynllun Swydd Gymorthdaledig, cynllun a ddechreuwyd ym 1982, ac a

roddodd cymorth grant i gyfanswm o 47 swydd, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ar alluedd maes amgueddfeydd Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi swyddi tymor byrrach ar gyfer dibenion mwy penodol. Mewn llawer achos mae'r swyddi hyn yn symbylydd i ysgogi datblygiad amgueddfeydd cymunedol.

5. Roedd C.Amg.C. yn siomedig na chafodd gyllid ychwanegol yn 2003/04 er mwyn cefnogi gwaith ar Archwiliadau Anabledd mewn amgueddfeydd. Mae'r rhain o'r pwys mwyaf – nawr, ac yn y dyfodol.

**Gwasanaethau Creiddiol C.Amg.C.**

1. Mae pob un o'n haelodau yn enwedig yr Amgueddfeydd Annibynnol nad oes ganddynt, yn aml, staff proffesiynol, yn rhoi gwerth mawr ar ein gwasanaeth ymgynghori, sy'n ymwneud ag ystod eang o faterion.

2. Caiff isafswm o 35% o grant creiddiol ei ddyrannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel cymorth grant i aelodau. Bu C.Amg.C. yn hynod falch o dderbyn cronfeydd ychwanegol i'w dosbarthu fel cymorth grant, gan y Gronfa Moderneiddio Cyfalaf (CMF) ar gyfer TGCh, a Chyllid Her ar gyfer Arloesi a Mynediad. Bu'r rhain yn llwyddiannus dros ben ond daeth y CMF i ben yn 2002 a daw'r Gronfa Arloesi i ben yn 2003/04. Mae angen rhagor o gyllid er mwyn cynnal y momentwm.

3. Mae Rhaglen Hyfforddiant C.Amg.C. yn hollbwysig er mwyn datblygu gweithlu, yn enwedig mewn gwlad sydd â dim ond nifer cymharol fach o weithwyr proffesiynol mewn amgueddfeydd. Mae C.Amg.C. wedi gweithredu fel canolfan CGC tan yn ddiweddar iawn, ac mae'n gweithio law yn llaw â darparwyr hyfforddiant i sicrhau y bydd pob rhan o'r proffesiwn yng Nghymru yn gallu cael gafael ar hyfforddiant priodol.

## Y Dyfodol

Bydd CyMAL yn gweithredu o Ebrill 2004 ymlaen. Mae C.Amg.C. yn disgwyl y bydd yr uned newydd yn parhau i ddarparu'r holl wasanaethau uniongyrchol i amgueddfeydd ag y gwnaeth C.Amg.C. eu darparu. Mae C.Amg.C. yn rhoi pwys mawr ar sicrhau y bydd y sector annibynnol sylweddol mewn amgueddfeydd yng Nghymru (nad yw'n bresennol mewn llyfrgelloedd ac archifdai) yn parhau i gael mynediad i gefnogaeth wedi'i thargedu, cyngor a chymorth grant. Ar ben hynny, rydym yn gobeithio ceisio cyfleoedd newydd i weithio ym maes amgueddfeydd, ac hefyd ar draws sectorau gydag archifdai a llyfrgelloedd. Yn ôl y lefelau cyllid a staffio a gynigir fe ddylai hyn ddigwydd, ond ni wyddys hyd yma beth fydd gogwydd a chyfeiriad yr uned newydd.